

Atodiad Technegol ar gyfer rhagor o wybodaeth am sut mae canlyniadau 2015/16 Sir Gâr yn cymharu â Cyngorau eraill yng Nghymru

Hydref 2016

Gweled hefyd ein
[Fersiwn gryno](#)



EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru

YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi dod i'r casgliad yn gyson bod ein hadroddiadau cyhoeddus ar berfformiad yn "*deg ac yn gytbwys*", ac, yn ogystal â newyddion da, rydym yn adrodd am newyddion anghyfleus, er nad oes llawer ohono. *Rydym yn mynd i wneud y Cyngor yn gyngor mwyaf agored a thryloyw Cymru i'n galluogi i wella'n barhaus.*

Yn Arolwg Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin 2015, dywedodd **42%** o ddinasyddion Sir Gaerfyrddin *fod y cyngor yn dda am roi gwybod i bobl sut y mae'n perfformio* – (39% yn anghytuno). Hwn oedd y canlyniad **7^{fed}** gorau yng Nghymru (51% oedd y canlyniad gorau).

- Ym mis Gorffennaf eleni, cyhoeddwyd [Adroddiad Blynyddol 2015/16 a Chynllun Gwella 2016/17](#) Y Cyngor gennym a oedd yn darparu (fel mae ein Harchwilwyr wedi cydnabod dro ar ôl tro) adroddiad cynhwysfawr a chytbwys iawn ynghylch perfformiad y flwyddyn flaenorol a chamau gwella a thargedau, er gwaethaf y gostyngiadau yn y gyllideb, ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.
- Yn yr atodiad hwn rydym yn edrych ar **sut y mae canlyniadau Sir Gaerfyrddin 2015/16 yn cymharu** â'r canlyniadau perfformiad newydd sydd ar gael ar gyfer pob Cyngor arall yng Nghymru. Cyhoeddwyd y canlyniadau hyn gan Uned Ddata Llywodraeth Leol ar 7^{fed} Medi, 2016.



Uned Ddata Llywodraeth Leol - [Bwletin Perfformiad Awdurdodau Lleol 2015-16](#)

I weld canlyniadau'r Cyngorau eraill - [infobasecymru](#) a [fynghyngorlleol](#)

Cyflwyniad a Chynnwys

Tudalen

Mae dau brif ddull o fesur gwelliant:-

- % y mesurau sydd wedi gwella o flwyddyn i flwyddyn _____ **3**
- Sut mae ein canlyniadau'n cymharu â chynghorau eraill yng Nghymru _____ **4**


Safleoedd ein canlyniadau o gymharu â Chynghorau eraill _____ **5-6**

Canlyniadau, data cymharol, targedau ac esboniadau ar gyfer pob mesur _____ **7-17**

Sut mae'r wybodaeth hon yn dylanwadu ar gynlluniau y dyfodol _____ **18**

Canran o'r mesurau sydd wedi gwella yn ystod 2015/16

Yn ystod 2015/16, bu gwelliant mewn **57.5%** o'n mesurau, tra bo 25% wedi dirywio a 17.5% wedi aros yr un fath; mae hyn yn adeiladu ar y gwelliant a gyflawnwyd yn 2014/15 ac yn dal i fod yn galonogol yn yr hinsawdd bresennol o gyllidebau llai.



Ffigur 1


Gwelliant o flwyddyn i flwyddyn

Mae ffigur 2 isod yn dangos ein gwelliant o flwyddyn i flwyddyn

Blwyddyn	Wedi gwella	Cyson	Wedi dirywio	Gwelliant Net (Wedi gwella - Wedi dirywio)
2015/16	59% (23 o fesurau)	17.5% (7 o fesurau)	25% (10 o fesurau)	32.5%
2014/15	56% (24 o fesurau)	14% (6 o fesurau)	30% (13 o fesurau)	26%
2013/14	61% (27 o fesurau)	9% (4 o fesurau)	30% (13 o fesurau)	31%

Ffigur 2

Mae ffigur 3 yn dangos sut mae ein gwelliant yn y mesurau hyn yn cymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru, yr ydym yn gydradd 6^{ed} o gymharu â chydradd 10^{fed} yn 2014/15




Ffigur 3

Sut mae ein canlyniadau 2015/16 yn cymharu â Chynghorau eraill yng Nghymru

Y ffordd arferol o gymharu canlyniadau yw edrych ar gyfran y dangosyddion sydd gan yr awdurdod yn y chwarter uchaf o'r canlyniadau, y chwarter isaf o'r canlyniadau ac yn uwch ac yn is na'r canlyniad canolrif.

Mae *ffigur 4* isod yn dangos sut mae ein canlyniad yn cymharu â Chynghorau eraill yng Nghymru yn 2015/16




Ffigur 4

Ar gyfer 2015/16 mae 62.5% o'n mesurau yn y ddau chwarter uchaf gyda 37.5% yn y ddau chwarter isaf o'i gymharu â 60% yn 2014/15 ac mae hyn yn gyrhaeddiad ardderchog.


Ein perfformiad dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf

Mae'r graff isod (*Ffigur 5*) yn dangos ein perfformiad cymharol dros yr 8 mlynedd diwethaf



Mae *Ffigur 6* isod yn dangos sut rydym yn cymharu â phob awdurdod yng Nghymru yn ein safleoedd chwarter - mae hyn yn seiliedig ar sgôr o 4 pwynt ar gyfer pob mesur yn y chwarter uchaf, 3 pwynt ar gyfer y rhai yn y chwarter canol uwch, 2 bwynt ar gyfer y rhai yn y chwarter canol is ac 1 pwynt ar gyfer y mesurau hynny yn y chwarter isaf.

Trwy wella ein canlyniadau ymhellach yn ystod 2015/16, mae gennym fesurau ychwanegol bellach yn y ddau chwarter uchaf, rydym wedi symud i fyny i'r cydradd 5^{ed} safle o'i gymharu a chydadd 7^{fed} yn 2014/15.



Ffigur 6 Atodiad Technegol

Mae'r tabl isod yn dangos y wybodaeth ganlynol am fesurau y mae'n rhaid i bob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru ei chasglu -

- Ein canlyniad yn 2015/16 ac a yw'n well na'n canlyniad yn 2014/15
- Ein chwarterel (graddiad seren) o'i gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru
 - Ein safle yn 2015/16 o'i gymharu â'n safle yn 2014/15
- A yw ein targed ar gyfer 2016/17 wedi'i osod i wella perfformiad

	A yw ein canlyniad wedi gwella o 2014/15 i 2015/16	Pa mor dda yw canlyniad 2015/16?	Canlyniadau Gwaethaf											Canlyniadau Gorau										Targed wedi'i osod i wella am 2016/17 ✓ neu ✗		
			22 ^{ain}	21 ^{ain}	20 ^{fed}	19 ^{eg}	18 ^{fed}	17 ^{eg}	16 ^{eg}	15 ^{fed}	14 ^{eg}	13 ^{eg}	12 ^{fed}	11 ^{eg}	10 ^{fed}	9 ^{fed}	8 ^{fed}	7 ^{fed}	6 ^{ed}	5 ^{ed}	4 ^{ydd}	3 ^{ydd}	2 ^{il}		1 ^{af}	
			Mae'r saethau yn dechrau o'n safle yn 2014/15											at ein safle yn 2015/16												
Adeiladu Gwell Cyngor																										
1	Nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch. (CHR/002)	10.1		***																						
Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach																										
2	Ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth (LCS/002b)	6,905		*																						
3	% Safleoedd bwyd sy'n cydymffurfio'n fras â safonau (PPN/009)	94.98		***																						
4	Nifer y dyddiau a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl (PSR/002)	232		***																						
5	Oedi wrth drosglwyddo gofal (SCA/001)	4.69		**																						
6	Cymorth yn y gymuned (65 oed neu'n hŷn) (SCA/002a)	57.92		**	Oherwydd data cymharol annibynadwy, nid yw Llywodraeth Cymru yn dynuno bod y mesur hwn yn cael ei gymharu ar draws awdurdodau.																				Dilëwyd ar gyfer 2016/17	
7	Gofal Preswyl (65 oed neu'n hŷn) (SCA/002b)	18.74		**																						Dilëwyd ar gyfer 2016/17
8	% Unedau tai fforddiadwy newydd / holl unedau tai newydd (PLA/006b)	8		*																						
9	% Anheddau sector preifat gwag wedi'u llenwi (PSR/004)	5.73		**																						
10	Cleientiaid â chynllun gofal ar Fawrth 31ain - wedi'i adolygu (SCA/007)	74.7		*																						Dilëwyd ar gyfer 2016/17
11	% Gofalwyr a gafodd gynnis asesiad yn ôl eu hawl eu hunain (SCA/018a)	100.0		*****																						Dilëwyd ar gyfer 2016/17
Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu																										
12	% Disgyblion sy'n cyflawni Asesiad Athro Cyfnod Allweddol 2 (EDU/003)	88.2		***																						
13	% Disgyblion sy'n cyflawni Asesiad Athro Cyfnod Allweddol 3 (EDU/004)	85.1		***																						
14	Cyfartaledd y sgôr pwyntiau mewn cymwysterau allanol (EDU/011)	580.3		****																						
15	% Disgyblion a gyrhaeddodd trothwy Lefel 2 (EDU/017)	61.1		***																						
16	Nifer yr ymwelwyr â Llyfrgelloedd Cyhoeddus fesul 1,000 o'r boblogaeth (LCL/001b)	7,203		****																						
17	Sgôr cymwysterau, ar gyfartaledd - plant sy'n derbyn gofal (SCC/037)	334		****																						Dilëwyd ar gyfer 2016/17
18	% Disgyblion sy'n gadael ysgol heb gymhwyster (EDU/002i)	0.0		****																						Ar y canlyniad mwyaf
19	% Disgyblion sy'n derbyn gofal sy'n gadael ysgol heb gymhwyster (EDU/002ii)	0.0		****																						Ar y canlyniad mwyaf

		A yw ein canlyniad wedi gwella o 2014/15 i 2015/16		Pa mor dda yw canlyniad 2015/16?	22 ^{ain}	21 ^{ain}	20 ^{fed}	19 ^{eg}	18 ^{fed}	17 ^{eg}	16 ^{eg}	15 ^{fed}	14 ^{eg}	13 ^{eg}	12 ^{fed}	11 ^{eg}	10 ^{fed}	9 ^{fed}	8 ^{fed}	7 ^{fed}	6 ^{ed}	5 ^{ed}	4 ^{vdd}	3 ^{vdd}	2 ^{il}	1 ^{af}	Targed wedi'i osod i wella am 2016/17 ✓ neu ✕		
		Ein canlyniad 2015/16	Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng ↓	* = gwaethaf * * * * = gorau	Canlyniadau Gwaethaf												Canlyniadau Gorau												
					Mae'r saethau yn dechrau o'n safle yn 2014/15												at ein safle yn 2015/16												
20	% Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (EDU/016a)	95.2	↑	*****																							✓		
21	% Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (EDU016b)	94.2	↑	****																							✓		
22	% Datganiadau a gyflwynwyd o fewn 26 wythnos (yn cynnwys eithriadau) (EDU/015a)	34.8	↑	*																							✓		
23	% Datganiadau a gyflwynwyd o fewn 26 wythnos (ac eithrio eithriadau) (EDU015b)	80.0	↑	*																							✓		
24	% Disgyblion sy'n cyflawni Cymraeg (iaith gyntaf) Cyfnod Allweddol 3 (EDU/006ii)	43.2	↑	*****																							✓		
Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel																													
25	% Atgyfeiriadau Diogelu Oedolion – risg wedi'i rheoli (SCA/019)	92.61	↓	*																							Dilëwyd ar gyfer 2016/17		
26	% Plant sy'n derbyn gofal sy'n symud ysgol (SCC/002)	3.9	↑	*****																							✕		
27	% Plant sy'n derbyn gofal sydd wedi cael 3 lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn (SCC/004)	14.9	↓	*																							✓		
28	% Aseidiadau cychwynnol - plant sydd wedi cael eu gweld gan weithiwr cymdeithasol ar eu pennau eu hunain (SCC/011b)	46.5	↓	*																							Dilëwyd ar gyfer 2016/17		
29	% Ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal (SCC/025)	98.2	↓	*****																							Dilëwyd ar gyfer 2016/17		
30	% Pobl Ifanc 19 oed a oedd gynt yn derbyn gofal - Awdurdod Lleol mewn cyswllt (SCC/033d)	100.0	↔	*****																							Dilëwyd ar gyfer 2016/17		
31	% Pobl Ifanc 19 oed a oedd yn derbyn gofal ar un adeg nad ydynt mewn llety (dim argyfwng) (SCC/033e)	94.7	↑	****																							Dilëwyd ar gyfer 2016/17		
32	% Pobl Ifanc 19 oed mewn addysg, hyfforddiant, cyflogaeth (SCC/033f)	73.7	↑	****																							Dilëwyd ar gyfer 2016/17		
33	% Y plant sydd â chynllun llwybr yn ôl yr angen (SCC/041a)	100.0	↔	*****																							Dilëwyd ar gyfer 2016/17		
34	% Yr adolygiadau plant a gafodd eu cynnal ar amser (SCC/045)	89.4	↔	*																							Dilëwyd ar gyfer 2016/17		
Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy																													
35	% Newid yn y sgôr gyfartalog ar y Dystysgrif Arddangos Ynni (%) (GAM/037)	7.2	↑	*****																							✓		
36	% Priffyrdd a archwiliwyd ar gyfer safon uchel / derbyniol (STS/005b)	98.9	↓	*****																							✕		
37	% Gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi (WMT/004b)	5.25	↑	*****																							✕		
38	% Gwastraff wedi'i aildefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio (WMT/009b)	63.52	↑	*****																							✕		
39	% Tipio anghyfreithlon a adroddwyd a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith (STS/006)	87.24	↓	*																							✓		
40	% Oedolion 60+ oed â thocyn teithio consesiynol (THS/007)	80.6	↓	**																							✕		
41	% Ffyrdd (A), (B) ac (C) sydd mewn cyflwr gwael (THS/012)	10.7	↑	*																							✓		

Mae'r tablau canlynol yn rhoi proffiliau manwl ar gyfer pob un o'r mesurau perfformiad sy'n cael eu mesur gan bob Cyngor yng Nghymru.

Sut wnaethom ni berfformio yn vstod 2014/15?

Y lefel perfformiad leiaf sydd ei hangen i fod ymysg y 5 cyngor gorau yng Nghymru

A ydy'r targed perfformiad a osodwyd ar gyfer 2016/17 i wella ar ganlyniad 2015/16?
✓ (Ydy) neu ✗ (Nac ydy)

Diffiniad: Yr hyn yr ydym yn mesur?
Disgrifiad byr o'r mesur perfformiad

Ein canlyniad terfynol ar gyfer 2015/16

Cymhariaeth rhwng ein canlyniad yn 2014/15 a'n perfformiad yn 2015/16.
Wnaethom ni wella?
▲ (Do) neu ▼(Naddo)

Sut mae ein canlyniad yn cymharu ag Awdurdodau Lleol eraill?
* Chwarterl Gwaethaf i
**** Chwarterl Gorau

Ein mesurau llwyddiant allweddol - canlyniadau 2015/16 a thargedau ar gyfer 2016/17										
Disgrifiad / Cyfeirnod y Mesur	Pa mor dda ydyn ni wedi'i wneud? 2014/15	Pa mor dda ydym yn gwneud?							Gwella 2016/17	
		Gweler esboniad o'r perfformiad			Gwybodaeth Gymharol Cymru Gyfan					
		Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed 😊 neu ☹️	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwarterl Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * ****	Targed a osodwyd
Mesur (au) allweddol	6.18	5.77	4.69	😊	▲	2.44	4.33	**	4.51	✓
<p>SCA/001 Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu'n hŷn.</p>	<p>Esboniad o berfformiad yn cael ei ddarparu yma pan nad yw'r canlyniad wedi cyrraedd y targed, perfformiad cymharol wael a / neu darged yn y dyfodol heb gael ei osod i wella.</p>									

Ein targed a osodwyd ar gyfer 2015/16

A wnaethom gyrraedd ein targed ar gyfer 2015/16?
😊 (Do) neu ☹️ (Naddo)

Perfformiad ystod ganol yng Nghymru.

Ein targed perfformiad ar gyfer 2016/17

Mesurau Perfformiad a fesurir gan yr holl Gynghorau yng Nghymru ar gyfer 2015/16

Canlyniadau 2015/16 a thargedau ar gyfer 2016/17

	Pa mor dda ydyn ni wedi'i wneud?	Pa mor dda ydym yn gwneud?							Gwella		
		Gweler esboniad o'r perfformiad			Gwybodaeth Gymharol Cymru Gyfan						
Disgrifiad / Cyfeirnod y Mesur	2014/15	2015/16							2016/17		Thema Cynllun Gwella
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwartel Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * ; ****	Targed a osodwyd	Targed wedi'i osod i wella yn erbyn canlyniad gwirioneddol ✓ neu ✕	
CHR/002 - Nifer y diwrnodau gwaith / shifftiau cyfwerth ag amser llawn (FTE) a gollwyd gan weithiwr awdurdod lleol oherwydd absenoldeb salwch.	9.6 diwrnod	9.3 diwrnod	10.1 diwrnod	☹	▼	9.6 diwrnod	10.2 diwrnod	***	9.6 diwrnod	✓	Adeiladu Gwell Cyngor
	<p>Mae'r canlyniad wedi dirywio hanner diwrnod ar gyfer 2015/16 ar ôl gwelliant gwych yn ystod 2014/15. Er hyn, rydym wedi symud o'r 10fed safle i'r 7fed safle o gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru. Yn ôl Arolwg y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu, mae'r duedd ar gyfer absenoldeb salwch yn y sector cyhoeddus yn dangos cynnydd o un diwrnod. Y prif wasanaethau lle mae absenoldeb salwch wedi cynyddu yw staff ysgol a gofal cymdeithasol i oedolion. Mae rhai achosion o absenoldeb salwch tymor hir o hyd sydd wedi cael eu rheoli drwy'r broses yn briodol, ond mewn rhai meysydd mae angen rhagor o bwyslais ar gymhwyso'r polisi ac ymyriadau cynt. Mae cynnydd wedi bod mewn salwch o achos straen, iechyd meddwl a lludded, sy'n cyfateb i chwarter cyfanswm y diwrnodau salwch yn ystod 2015/16 o gymharu â 22% y llynedd, ac roedd llawer o'r achosion yn ymwneud â materion gartref. Problemau cyhyrsgerbydol yw'r achos ail fwyaf o absenoldeb (15%) sydd 2% yn is na 2014/15.</p> <p>Byddwn yn hyrwyddo ymhellach reolaeth absenoldeb salwch gadarn mewn adrannau ac rydym yn ystyried pennu targedau adrannol. Hefyd byddwn yn darparu mwy o friffiadau wedi'u targedu ac rydym yn gobeithio y byddant yn gwella'r modd y rheolir presenoldeb a chysondeb o ran adroddiadau.</p> <p>Mae defnyddio'r gwasanaethau Therapi Gwybyddol Ymddygiadol/rheoli straen mewnol yn parhau ac yn canolbwyntio ar roi cefnogaeth ar gyfer straen, gorbryder, ac iselder, ochr yn ochr â chymorth ac ymyriadau rheolaeth.</p>										
LCS/002 - Nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden a chwaraeon yn ystod y flwyddyn, lle bydd yr ymwelwyr yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, fesul 1,000 o'r boblogaeth.	7,028	7,100	6,905	☹	▼	9,382	8,231	*	7,251	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach
	<p>Er bod gostyngiad cyffredinol o 2% o ran ymweliadau â chyfleusterau Chwaraeon a Hamdden yn 2015-16 o gymharu â 14-15 (21,067 o ymweliadau), bu i'r ymweliadau â chanolfannau hamdden a gynhelir gan y cyngor gynyddu. Mae'r ffaith bod dros 70,000 yn fwy o ymweliadau wedi eu cofnodi yn 2015-16 yn dangos hyn.</p> <p>Fodd bynnag, o achos ailstrwythuro'r Swyddogion Datblygu Chwaraeon a darfyddiad cyllid allanol gan gyrrff llywodraethu cenedlaethol penodol ar gyfer chwaraeon, bellach mae llai o swyddogion ac mae mwy o bwyslais yn eu cylch gwaith ar weithio gyda darparwyr nag ymwneud yn uniongyrchol â darparu gweithgareddau. Roedd rygbi, er enghraifft, yn gyfrifol am tua 20,000 o ymweliadau na allwn eu cyfrif mwyach. Mae'r model y mae'r Swyddogion Chwaraeon a Hamdden yn gweithio tuag ato yn hwyluso mwy o weithgareddau cynaliadwy ac yn gallu cael effaith ar fwy o gyfranogwyr, ond nid ydym bellach yn casglu cymaint o ddata am ymweliadau gan nad ydym mwyach yn darparu'r gweithgaredd. Mae hyn wedi arwain at dros 90,000 yn llai o ymweliadau'n cael eu cofnodi gan swyddogion, gan ostwng o 271,119 i 180,346.</p> <p>Rydym yn gweld twf parhaus o ran llawer o'r hyn a ddarperir drwy ein chyfleusterau Chwaraeon a Hamdden, er enghraifft mae aelodaeth o'n cynllun nofio wedi cyrraedd ei lefelau uchaf erioed ac mae ein cynnig ffitrwydd yn ehangu ar hyn o bryd i ateb y galw. Mae'r ddau beth hyn wedi arwain at gynydd sylweddol mewn incwm a chyfranogwyr.</p>										

Disgrifiad / Cyfeirnod y Mesur	2014/15	2015/16							2016/17		Thema Cynllun Gwella
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwartel Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * i ****	Targed a osodwyd	Targed wedi'i osod i wella yn erbyn canlyniad gwirioneddol ✓ neu ✗	
3 PPN/009 - Canran y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd	94.16%	93.00%	94.98%	☺	▲	95.7%	94.28	***	93.00%	✗	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach
Er ein bod yn unol â'r targed ac yn dangos gwelliant ar gyfer 2015/16, nid yw'r targed o 93% ar gyfer 2016/17 wedi'i osod yn uwch ac ystyrir ei fod yn adleisio sector busnes byrhoedlog. Seilir y lefel gydymffurfiaeth ar berfformiad busnes unigol, ac felly nid yw'n adleisio mewnbwn yr Awdurdod Lleol. Mae ffigur o 7% nad yw'n cydymffurfio'n fras wedi'i neilltuo i gyfrif am eiddo sy'n methu, a'r rhain fydd prif ffocws ymyriadau'r Awdurdod Lleol. Y prif fwrriad fydd sicrhau gwell cydymffurfiaeth yn y dyfodol, y gellir ond ei asesu yn yr arolygiad nesaf sydd wedi'i drefnu (sydd fel arfer ar hyd blwyddyn ariannol arall). Bydd monitro perfformiad yn rheolaidd yn parhau gydol y flwyddyn, gan weithio gyda Gweithredwyr Busnesau Bwyd er mwyn cyrraedd safon mor uchel â phosibl.											
4 PSR/002 - Nifer y diwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl	252 diwrnod	235 diwrnod	232 diwrnod	☺	▲	189 diwrnod	235 diwrnod	***	220 diwrnod	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach
5 SCA/001 - Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu'n hŷn.	6.18	5.77	4.69	☺	▲	2.44	4.33	**	4.51	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach
Gwelliant da yn ystod 2015/16 gyda gostyngiad o 113 o gleifion i 87 o gleifion yn profi oedi cyn gadael yr ysbyty. Rydym yn gweithio'n fwyfwy agos gyda'r Bwrdd Iechyd i ddatrys unrhyw broblemau. Mae tîm amlddisgyblaeth yn gweithio yn y ddau ysbyty cyffredinol yn Sir Gaerfyrddin i wella'r cysylltiadau rhwng y gymuned a'r sector aciwt. Maent yn datblygu modelau sy'n helpu i osgoi derbyniadau a lleihau hyd arosiadau yn yr ysbyty, gan wella lles y bobl hŷn y gall cael eu derbyn i'r ysbyty gael canlyniadau negyddol iddynt. Hefyd rydym wedi sefydlu gwasanaeth gofal cartref Ymateb Cyflym i ymateb yn syth i osgoi derbyniadau i'r ysbyty, helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain a hwyluso rhyddhau'n gynnar o'r ysbyty.											
6 SCA/002a - Cyfradd o pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth;	61.87	58.93	57.92	☹	▼	Ddim yn berthnasol			Mae'r mesur hwn wedi cael ei ddileu ar gyfer 2016/17		Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach
Mae'r mesur statudol hwn yn disgwyl bod cynifer o bobl hŷn â phosibl yn cael cymorth i fyw gartref. Fodd bynnag, fel Cyngor rydym am hyrwyddo byw'n annibynnol ac mae ein hystod arloesol o wasanaethau yn ceisio cefnogi pobl drwy wasanaethau yn y gymuned. Mae gostyngiad wedi bod mewn gofal dydd a darparu prydau yn sgil ymdrechion i ddod o hyd i ddewisiadau yn y gymuned sy'n eu hannog i gymryd rhan yn eu cymuned leol.											
7 SCA/002b - Cyfradd y bobl hŷn (sy'n 65 oed neu'n hŷn) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu'n hŷn ar 31 Mawrth	20.48	19.59	18.74	☺	▲	15.55	18.52	**	Mae'r mesur hwn wedi cael ei ddileu ar gyfer 2016/17		Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach
Mae'r mesur hwn wedi'i ddileu ar gyfer 2016/17 a bydd mesurau newydd gan y Ddeddf Gofal Cymdeithasol newydd yn eu disodli.											

Disgrifiad / Cyfeirnod y Mesur	2014/15	2015/16							2016/17		Thema Cynllun Gwella
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwartel Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * i ****	Targed a osodwyd	Targed wedi'i osod i wella yn erbyn canlyniad gwirioneddol ✓ neu ✗	
<p>8 PLA/006b - Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.</p>	8%	9%	8%	☹	▼	51%	33%	*	30%	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach
<p>Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, mae canlyniad 2015/16 ar gyfer y mesur hwn wedi ei seilio ar ddata perfformiad Tai Fforddiadwy o 2014/15. Bydd ein hunion berfformiad yn 2015/16 yn cael ei riportio yn ôl y mesur hwn yn 2016/17.</p> <p>Roedd nifer y cartrefi fforddiadwy a ddarparwyd fel arfer yn dibynnu ar y defnydd o'r Grant Tai Cymdeithasol (h.y. cartrefi a godir o'r newydd gan Gymdeithasau Tai) ac ar ddarpariaethau adran 106 o'r system gynllunio. Fodd bynnag, yn 2014/15 roedd darparu tai fforddiadwy yn dibynnu'n bennaf ar y defnydd o'r Grant Tai Cymdeithasol. Yn ystod yr amser hwn, roedd y cyllid hwn yn canolbwyntio ar ddarparu llety o safon uchel, gan hyrwyddo byw'n annibynnol a chan ddiwallu anghenion penodol pobl hŷn, drwy ddarparu dau gynllun gofal ychwanegol, sef Cartref Cynnes yng Nghaerfyrddin a Tŷ Dyffryn yn Rhydaman. Datblygwyd y ddau gynllun gofal ychwanegol hyn dros gyfnod o ddwy flynedd. Cychwynwyd ar y ddarpariaeth yn 2014/15 drwy'r 111 o unedau fforddiadwy y byddant ar gael i'w meddiannu yn 2015/16.</p> <p>O safbwynt cynllunio yn 2014/15, roedd datblygiad cartrefi fforddiadwy yn cael ei seilio'n bennaf ar bolisiau'r Cynllun Datblygu Unedol. Er bod y Cynllun Datblygu Unedol yn gwneud darpariaethau ar gyfer tai fforddiadwy, nid oedd yn nodi union niferoedd na chanran yr unedau o dai fforddiadwy oedd i'w darparu ar safleoedd unigol. Fodd bynnag, roedd y Cynllun Datblygu Lleol newydd (a fabwysiadwyd ym mis Rhagfyr 2014) yn darparu fframwaith mwy cadarnhaol ar gyfer darparu cartrefi fforddiadwy. Mae'n nodi nifer yr unedau fforddiadwy sydd i'w darparu gan ddefnyddio targedau canran ar gyfer safleoedd ledled y sir. Hefyd mae'n ofynnol cael symiau gohiriedig o dai fforddiadwy ar bob safle preswyl, yn cynnwys rhai sydd â llai na 5 preswylfa. Disgwylir y darperir mwy na 2,000 o dai fforddiadwy drwy'r Cynllun Datblygu Lleol.</p> <p>Gan symud ymlaen o 2014/15, rydym wedi datblygu Ymrwymiad a Chynllun Darparu Tai Fforddiadwy lle bydd dros 1,000 yn fwy o gartrefi fforddiadwy yn cael eu darparu rhwng 2016 a 2020. Bydd y cynllun hwn yn helaethu'r ystod o opsiynau sydd ar gael i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Yn ogystal â darparu tai fforddiadwy drwy'r grant tai cymdeithasol a chyfraniadau gan ddatblygwyr Adran 106, hefyd bydd yr opsiynau bellach yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rheoli tai fforddiadwy drwy'r Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol • Ailddefnyddio tai gwag fel unedau fforddiadwy • Cynyddu stoc dai y Cyngor drwy brynu tai'r sector preifat • Adeiladau newydd y Cyngor <p>Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, mae canlyniad 2015/16 ar gyfer y mesur hwn wedi ei seilio ar ddata</p>											
<p>9 PSR/004 - Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol.</p>	5.45%	5.24%	5.73%	☺	▲	13.8%	6.43	**	6.00%	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach

Disgrifiad / Cyfeirnod y Mesur	2014/15	2015/16							2016/17		Thema Cynllun Gwella
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwartel Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * i ****	Targed a osodwyd	Targed wedi'i osod i wella yn erbyn canlyniad gwirioneddol ✓ neu ✗	
10 SCA/007 - Canran y cleientiaid â chynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi'u hadolygu a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn	71.9%	80.0%	74.7%	☹	▲	90.3%	82.9%	*	Mae'r mesur hwn wedi cael ei ddileu ar gyfer 2016/17		Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach
	Er na wnaethom gyrraedd ein targed ar gyfer 2015/16, mae'n bwysig cydnabod bod canran yr adolygiadau y dylent gael eu hadolygu, ers 2013/14, wedi cynyddu o 63.8% i 74.7% (2015/16). Rydym yn cydnabod bod hwn yn faes y mae angen inni roi blaenoriaeth iddo ac rydym wedi cael cyllid gan y Gronfa Gofal Canolraddol i benodi timau amlddisgyblaeth yn y tair ardal leol, gan sicrhau gwelliant parhaus mewn perfformiad yn y maes hwn.										
11 SCA/018a - Canran y gofaluwr sy'n gofalu ar ôl oedolion a gafodd gynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion eu hunain yn ystod y flwyddyn	100.0%	100.0%	100.0%	☺	Ar y canlyniad mwyaf	99.7%	95.1%	****	Mae'r mesur hwn wedi cael ei ddileu ar gyfer 2016/17		Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach
12 EDU/003 - Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon	87.4%	88.7%	88.2%	☹	▲	89.4%	87.9%	***	88.7%	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
	Er nad yw'n unol â'r targed, mae'r canlyniad wedi gwella 0.8 pwynt canran o gymharu â'r flwyddyn flaenorol o 87.4% i 88.2%. Mae'r perfformiad a gyflawnir yn cynrychioli canlyniad gorau'r Awdurdod Lleol hyd yn hyn ac yn parhau ein tuedd gynyddol barhaus. Bydd y Tîm Gwella Ysgolion yn dal i gefnogi a herio'r holl ysgolion o ran gwell canlyniadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Mae trefniadau cenedlaethol i gefnogi cywirdeb Asesiadau Athrawon wedi cael eu rhoi ar waith a byddant yn parhau i gefnogi gwaith yn ein hysgolion.										
13 EDU/004 - Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon	84.5%	86.5%	85.1%	☹	▲	87.2%	84.3%	***	85.6%	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
	Er gwaethaf bod canlyniad 2015/16 ychydig oddi ar y targed, mae'n dangos cynnydd o 0.6 pwynt canran o gymharu â pherfformiad y llynedd. Hefyd y canlyniad yw'r uchaf a gofnodwyd gan yr Awdurdod Lleol, gan barhau ein tuedd gynyddol ers 2011 (68.4%), sef cynnydd o 16.7 pwynt canran. Bydd y Tîm Gwella Ysgolion yn parhau i gefnogi a herio'r holl ysgolion o ran gwell canlyniadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. Mae trefniadau cenedlaethol i gefnogi cywirdeb Asesiadau Athrawon wedi cael eu rhoi ar waith a byddant yn parhau i gefnogi gwaith ein hysgolion.										
14 EDU/011 - Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol	579.8	599.0	580.3	☹	▲	568.8	514.4	****	581.0	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
	Nid yw canlyniad 2015/16 yn cyrraedd y targed ond mae wedi gwella. Hwn yw'r canlyniad gorau erioed i'r Awdurdod Lleol a'r hyn sy'n gyfrifol amdano yw tracio a herio mwy pendant ar ran yr Awdurdod Lleol a Chonsortium ERW (Ein Rhanbarth ar Waith). Bydd y Tîm Gwella Ysgolion yn parhau i herio a chefnogi ysgolion a monitro perfformiad drwy gydol y flwyddyn academaidd er mwyn cyrraedd targedau disgyblion, ysgolion a'r Awdurdod Lleol.										

Disgrifiad / Cyfeirnod y Mesur	2014/15	2015/16							2016/17		Thema Cynllun Gwella
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwartel Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * i ****	Targed a osodwyd	Targed wedi'i osod i wella yn erbyn canlyniad gwirioneddol ✓ neu ✗	
15 EDU/017 - Canran y disgyblion 15 oed ar 31 Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Cymraeg mamiaith neu Saesneg a Mathemateg.	58.7%	61.1%	61.1%	☺	▲	62.3%	57.6%	***	61.6%	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
	Mae canlyniad 2015/16 (Blwyddyn Academaidd 2014/15) yn cynrychioli gwelliant da o fwy na 4% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac am y tro cyntaf mae ysgolion yr Awdurdod wedi rhagori ar y trothwy o 60%. Mae nifer o strategaethau herio, cefnogi ac ymyrryd a weithredir gan y Tîm Gwella Ysgolion mewn partneriaeth ag uwch-arweinwyr mewn ysgolion (yn cynnwys targedu perfformiad adrannau penodol) wedi cyfrannu'n fawr at y llwyddiant hwn. Mae angen i ddwy ysgol wella rhagor ar eu perfformiad. Mae camau ymyrryd gan y Tîm Gwella Ysgolion ar waith ac mae'r rhagolwg presennol ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2015/16 yn dda.										
16 LCL/001b - Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth.	6,806	6,840	7,203	☺	▲	5,692	4,576	****	7,274	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
	Gwelliant gwych yn ystod 2015/16; mae gwahanol welliannau yn ystod y flwyddyn wedi cyfrannu at hyn megis ein gwefan newydd; gosod teclynnau cyfrif pobl yn Llyfrgelloedd Caerfyrddin a Rhydaman, sydd wedi arwain at gasglu ffigurau cywirach o ran nifer yr ymwelwyr. Mae Llyfrgelloedd Cross Hands a Chydweli wedi ailagor ac mae nifer o leoliadau wedi cael eu hadnewyddu a'u moderneiddio, sydd wedi gwella'r gwasanaeth a ddarperir.										
17 SCC/037 - Cyfartaledd y sgôr pwyntiau mewn cysylltiad â chymwysterau allanol plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhyw sefyllfa ddysgu a gynhelir gan awdurdod lleol.	315	318	334	☺	▲	295	250	****	Mae'r mesur hwn wedi cael ei ddileu ar gyfer 2016/17		Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
18 EDU/002i - Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol) sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd	0.0%	0.0%	0.0%	☺	Ar y canlyniad mwyaf	0.0%	0.1%	****	0.0%	Ar y canlyniad mwyaf	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
19 EDU/002ii - Canran y disgyblion sydd yng ngofal awdurdodau lleol, sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd.	0.0%	0.0%	0.0%	☺	Ar y canlyniad mwyaf	0.0%	0.0%	****	0.0%	Ar y canlyniad mwyaf	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu

Disgrifiad / Cyfeirnod y Mesur	2014/15	2015/16							2016/17		Thema Cynllun Gwella
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwartel Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * i ****	Targed a osodwyd	Targed wedi'i osod i wella yn erbyn canlyniad gwirioneddol ✓ neu ✗	
20 EDU/016a - Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd	95.0%	95.2%	95.2%	☺	▲	95.2%	94.9%	****	95.4%	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
21 EDU/016b - Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd	93.9%	94.2%	94.2%	☺	▲	94.3%	93.8%	***	94.4%	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
22 EDU/015a - Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau gan gynnwys eithriadau.	22.9%	25.0%	34.8%	☺	▲	96.2%	78.3%	*	40.0%	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
23 EDU/015b - Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau heb gynnwys eithriadau.	75.0%	90.0%	80.0%	☹	▲	100.0%	100.0%	*	90.0%	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu

Disgrifiad / Cyfeirnod y Mesur	2014/15	2015/16							2016/17		Thema Cynllun Gwella
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwarter Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * i ****	Targed a osodwyd	Targed wedi'i osod i wella yn erbyn canlyniad gwirioneddol ✓ neu ✗	
24 EDU/006ii - Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.	39.0%	40.0%	43.2%	☺	▲	19.4%	11.7%	****	43.7%	✓	Bod pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu
25 SCA/019 - Canran yr atgyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau lle'r mae'r risg wedi ei rheoli.	98.98%	98.00%	92.61%	☹	▼	100.00%	98.95%	*	Mae'r mesur hwn wedi cael ei ddileu ar gyfer 2016/17		Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel
26 SCC/002 - Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth.	5.4%	10.0%	3.9%	☺	▲	9.2%	13.1%	****	5.0%	✗	Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel
27 SCC/004 - Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn	11.7%	11.3%	14.9%	☹	▼	8.6%	9.6%	*	13.5%	✓	Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel

Mae ein canlyniad ar gyfer 2015/16, sef 92.61%, yn ein gosod yn y chwarter isaf. Mae'r canlyniad hwn yn cyfateb i 17 o'r 230 o atgyfeiriadau amddiffyn oedolion yn cael eu dosbarthu fel 'y risg heb gael ei rheoli'. Yn y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cael nifer o atgyfeiriadau sy'n ymwneud â honiadau o gam-drin oedolion agored i niwed sydd wedi marw cyn bod yr atgyfeiriad wedi cael ei wneud. Hefyd rydym wedi cael atgyfeiriadau gan Heddlu Dyfed Powys lle mae honiad o gamdriniaeth ariannol wedi cael ei wneud yn uniongyrchol iddynt, ond lle mae ymchwiliad dilynol wedi dod i'r casgliad nad oes dim tystiolaeth i gefnogi'r honiadau. Nid ydym wedi categorio'r achosion hyn fel rhai lle nad oes risg, ond byddwn yn adolygu sut rydym yn categorio'r achosion o'r fath yn ystod 2016/2017 mewn ymateb i hyn.

Mae'r adran wedi perfformio'n eithriadol o dda yn ystod 2015/16 a dim ond 6 phlentyn sydd wedi newid un ysgol neu fwy. Rhagwelir y bydd y gwaith da yn parhau ond mae'r dangosydd perfformiad hwn yn dibynnu ar nifer y plant oedran ysgol gorfodol y gofelig amdanynt ar 31 Mawrth, sydd bob amser yn gallu newid, ac sydd, o ganlyniad, yn dylanwadu ar y canlyniad, ac felly mae 5% yn darged realistig ar gyfer 2016/17 ar sail perfformiad yn y gorffennol.

Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y lleoliadau heriol o ran pobl ifanc yn eu harddegau yn ystod y flwyddyn sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar sefydlogrwydd lleoliadau. Mae hyn, yn ogystal â gostyngiad yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal, wedi cael effaith ar y canlyniad yn y pen draw. Mae llawer o bobl ifanc nad ydynt yn dymuno bod yn y system ofal, er bod hynny o fudd iddynt. O ganlyniad mae lleoliadau'n gwanhau ac yn dadfeilio er gwaethaf ymdrechion gorau'r adran. Bellach mae Uwch-ymarferydd wedi cael ei benodi i gefnogi achosion o blant heriol mewn lleoliadau cymhleth neu lleoliadau o ran pobl ifanc yn eu harddegau. Mae Panel Llety wedi cael ei sefydlu i helpu'r broses baru a neilltuo adnoddau, yn ogystal â Phanel Adnoddau i sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu rhoi ar waith i helpu i gefnogi lleoliadau er mwyn atal lleoliad rhag dadfeilio. Mae'r adran yn canolbwyntio ar recriwtio gofalgwyr maeth ar gyfer plant hyn. Mae Panel Parhauster amlasiantaeth yn monitro cynlluniau gofal a chymorth i leoliadau er mwyn gwella sefydlogrwydd lleoliadau. Ar nodyn cadarnhaol, roedd rhai plant wedi dychwelyd i fyw gyda gofalwr sy'n riant/perthynas iddynt.

Disgrifiad / Cyfeirnod y Mesur	2014/15	2015/16							2016/17		Thema Cynllun Gwella
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwartel Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * i ****	Targed a osodwyd	Targed wedi'i osod i wella yn erbyn canlyniad gwirioneddol ✓ neu ✗	
28 SCC/011b - Canran yr asesiadau cychwynnol a gafodd eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle mae tystiolaeth bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gweld y plentyn ar ei ben ei hun.	47.3%	48.3%	46.5%	☹	▼	59.7%	52.3%	*	Mae'r mesur hwn wedi cael ei ddileu ar gyfer 2016/17		Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel
Caiff asesiadau eu neilltuo i'r gweithwyr priodol gan uwch-staff ac mae hynny'n dibynnu ar y math o asesiad. At ddiben y mesur hwn, mae staff nad ydynt yn staff cymdeithasol yn cynnwys cynorthwywyr sy'n weithwyr cymdeithasol, gweithwyr cymdeithasol sy'n fyfyrwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol yn ein Tim Anableddau Plant amlddisgyblaethol. Mae llawer o blant nad ydynt yn cael eu gweld ar eu pennau eu hunain o achos eu hoedran. Mae rhai plant yn dewis peidio â chael eu gweld ar eu pennau eu hunain ac yn gwrthod gwneud hynny. Ni fydd angen gweld plentyn ar ei ben ei hun ym mhob achos, mae hyn yn dibynnu ar natur yr asesiad. Fodd bynnag, byddwn yn sicrhau bod hyn yn digwydd lle bynnag y bo modd. Mae rhai plant nad ydynt yn cael eu gweld/nad ydynt yn cael eu gweld ar eu pennau eu hunain o achos gwahanol resymau yn cynnwys archwiliadau asiantaeth sengl gan yr heddlu, cyfarfodydd cam-drin proffesiynol, pobl sydd ar goll sy'n hysbys i awdurdodau eraill.											
29 SCC/025 - Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal oedd i fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a gafodd eu cynnal yn unol â'r rheoliadau	98.5%	98.0%	98.2%	☺	▼	94.2%	86.8%	****	Mae'r mesur hwn wedi cael ei ddileu ar gyfer 2016/17		Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel
30 SCC/033d - Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal y flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy a hwythau'n 19 oed.	100.0%	95.0%	100.0%	☺	Ar y canlyniad mwyaf	100.0%	96.3%	****	Mae'r mesur hwn wedi cael ei ddileu ar gyfer 2016/17		Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel
31 SCC/033e - Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod mewn llety addas, nad yw'n llety argyfwng a hwythau'n 19 oed	88.2%	89.5%	94.7%	☺	▲	100.0%	94.7%	****	Mae'r mesur hwn wedi cael ei ddileu ar gyfer 2016/17		Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel

Disgrifiad / Cyfeirnod y Mesur	2014/15	2015/16							2016/17		Thema Cynllun Gwella
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwarter Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * i ****	Targed a osodwyd	Targed wedi'i osod i wella yn erbyn canlyniad gwirioneddol ✓ neu ✗	
32 SCC/033f - Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod yn ymgymryd ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth a hwythau'n 19 oed.	64.7%	73.7%	73.7%	☺	▲	75.0%	63.0%	***	Mae'r mesur hwn wedi cael ei ddileu ar gyfer 2016/17		Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel
33 SCC/041a - Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol sydd â chynlluniau llwybr yn ôl yr angen.	100.0%	100.0%	100.0%	☺	Ar y canlyniad mwyaf	100.0%	100.0%	****	Mae'r mesur hwn wedi cael ei ddileu ar gyfer 2016/17		Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel
34 SCC/045 - Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, adolygiadau plant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac adolygiadau plant mewn angen a gafodd eu cynnal yn unol â'r amserlenni statudol	89.4%	90.0%	89.4%	☹	▼	95.2%	92.2%	*	Mae'r mesur hwn wedi cael ei ddileu ar gyfer 2016/17		Bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ac yn ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel
	Mae ein canlyniad ar gyfer 2015/16 wedi aros yr un peth, ond rydym wedi symud i'r chwarter isaf. Mae cwblhau adolygiadau Plant mewn Angen yn unol ag amserlenni yn dal i fod yn broblem, ac mae dirywiad ym mherfformiad ac absenoldeb salwch y staff yn ffactor sy'n cyfrannu at hynny. Mae adolygiadau Amddiffyn Plant a Phlant sy'n Derbyn Gofal wedi gwella yn ystod y flwyddyn, i 96.2% a 99.4%. Bydd Rheolwyr y Tîm yn parhau i fonitro adolygiadau Plant mewn Angen a bydd Gweithwyr Cymdeithasol yn sicrhau bod yr holl ffurflenni adolygu Asesu Gofal (cofnod electronig) yn cael eu cofnodi ar y system fel y bo'r angen.										
35 CAM/037 - Canran y newid yn sgôr gyfartalog Tystysgrif Arddangos Ynni o fewn adeiladau cyhoeddus awdurdodau lleol dros 1,000 o fetrau sgwâr	1.5%	1.1%	7.2%	☺	▲	5.7%	4.1%	****	1.1%	✓	Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy
36 STS/005b - Canran y priffyrdd a'r tir perthnasol a adolygwyd sydd o safon glendid uchel neu dderbyniol	99.2%	92.0%	98.9%	☺	▼	98.1%	96.7%	****	92.0%	✗	Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy
	Er bod canlyniad 2015/16 yn uwch o dipyn na'r targed, mae wedi dangos gostyngiad mewn perfformiad, felly mae'r targed ar gyfer 2016/17 wedi cael ei bennu'n llai gan fod angen i'r gwasanaeth wneud rhagor o arbedion sylweddol.										

Disgrifiad / Cyfeirnod y Mesur	2014/15	2015/16							2016/17		Thema Cynllun Gwella
	Ein Canlyniad	Targed	Canlyniad terfynol	Cyrraedd y targed ☺ neu ☹	Wnaethom ni wella ▲ neu ▼	Chwarter Gorau Cymru	Canolrif Cymru	Ein safle yng Nghymru * i ****	Targed a osodwyd	Targed wedi'i osod i wella yn erbyn canlyniad gwirioneddol ✓ neu ✗	
37 WMT/004b - Canran y gwastraff trefol a gludir i safleoedd tirlenwi	18.11%	15.00%	5.25%	☺	▲	12.08%	14.56%	****	10.00%	✗	Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy
Mae'r canlyniad ar gyfer 2015/16 yn y chwarter uchaf a hwn yw'r canlyniad gorau yng Nghymru. Mae targed 2016/17 yn adlewyrchu'r ffaith ein bod ar hyn o bryd yn cyrraedd ein targed statudol ar gyfer 2019/20 a'r ffaith y gallai cost trin gwastraff gweddilliol fod yn llethol yn y dyfodol. Byddwn yn ymdrechu i gyrraedd ein targed statudol, gan aros o fewn y gyllideb ar yr un pryd.											
38 WMT/009b - Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddedfnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi eu gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall	59.61%	60.00%	63.52%	☺	▲	62.18%	59.61%	****	62.00%	✗	Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy
Cafodd y gwelliant sylweddol mewn perfformiad o ran dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi yn ystod 2015/16 ei gyflawni drwy gyflwyno proses trin gwastraff gweddilliol yn y flwyddyn flaenorol. Ar hyn o bryd rydym yn cyrraedd ein targedau statudol ar gyfer 2019/20 o ran lwfans tirlenwi. Mae'r targed ailgylchu cyffredinol o 62% yn adlewyrchu cynllun targedau fesul cam y strategaeth wastraff ar gyfer cyrraedd y targed ailgylchu statudol o 70% erbyn 2025. Byddwn yn gweithio tuag at gyrraedd y targedau a bennir yn ein strategaeth wastraff, gan aros o fewn y gyllideb ar yr un pryd.											
39 STS/006 - Canran yr achosion o dipio gwastraff yn anghyfreithlon y rhoddwyd gwybod amdanynt ac y cliriwyd y gwastraff o fewn 5 niwrnod gwaith.	98.70%	98.63%	87.24%	☹	▼	97.88%	96.68%	*	98.63%	✓	Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy
Daethpwyd ar draws anawsterau o ran yr agwedd hon ar ein gwasanaeth glanhau o achos yr angen dros dro am neilltuo adnoddau ledled y gwasanaethau casglu sbwriel a glanhau er mwyn ateb galwadau sy'n flaenoriaeth, yn enwedig yn y cyfnod o fis Ionawr tan fis Mawrth 2016. Mae'r sefyllfa hon wedi rhoi bod i oedi o ran ymateb i rai achosion o waredu sbwriel yn anghyfreithlon o fewn yr amserlen benodol yn ystod y cyfnod hwn, ac felly wedi effeithio ar y canlyniad diwedd blwyddyn. Mae'r % a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2015 ychydig bach yn is na'n canlyniad ar gyfer y flwyddyn flaenorol sef 98.7%.											
40 THS/007 - Canran yr oedolion 60+ oed sy'n dal cerdyn teithio rhatach	81.5%	79.0%	80.6%	☺	▼	91.7%	86.7%	**	79.0%	✗	Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy
Mae targed 2016/17 wedi cael ei bennu'n is na chanlyniad 2015/16 gan y bydd y drefn barhaus o leihau'r gwasanaethau bysiau a gynigir yn effeithio ar y nifer fydd yn debygol o fanteisio ar y cerdyn teithio rhatach yn y dyfodol.											
41 THS/012 - Canran y prif ffyrdd (A), ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) a ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol	11.9%	11.9%	10.7%	☺	▲	5.3%	7.7%	*	9.5%	✓	Bod cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy
Gellir gweld bod cyllid ychwanegol Menter Benthycia Llywodraeth Leol dros y blynyddoedd diwethaf yn cael effaith uniongyrchol ar wella cyflwr cyffredinol cyfunedig ein rhwydwaith ffyrdd (dosbarthiadau A, B, ac C). Er bod y ffigwr cyffredinol cyfunedig o 10.7% yn dangos gwelliant, mae'n brin o'r nod o gyrraedd lefel 2008 sef 7.1%, ond mae'n llai o lawer na'r uchafbwynt yn 2012/13 o 17.2%, gan fynd yn groes i'r duedd gyffredinol h.y. gostyngiad yn y gyfran gyffredinol o'r rhwydwaith y dynodir ei fod mewn cyflwr gwael. Roedd buddsoddiad Menter Benthycia Llywodraeth Leol yn Sir Gaerfyrddin wedi ei dargedu'n bennaf at ffyrdd dosbarth A a B, ond mae'n ymddangos bod buddsoddiad diweddar a wnaed yn benodol mewn ffyrdd dosbarth C drwy gyfrwng arian Sirol wedi bod o gymorth, gan fod y ffigwr wedi codi o 21.8% yn 2012-13 i 13.7% yn 2015-16, er bod y ffigwr hwn yn sylweddol uwch na'r lefel darged a ddymunir sef tua 9.7% ar gyfer rhwydwaith dosbarth C. Bydd buddsoddiad ariannol sylweddol yn ofynnol i wneud gwelliannau pellach i gyflwr cyffredinol cyfunedig y rhwydwaith, gan dargedu rhwydwaith dosbarth C yn bennaf.											

Sut mae'r wybodaeth hon yn dylanwadu ar gynlluniau y dyfodol

Ni all un set o ffigurau ddweud y stori gyfan. Bwriedir bod y dangosyddion a gyflwynir yma yn ysgogi cwestiynau yn hytrach na darparu atebion gor-syml. Bydd gwella ein dealltwriaeth yn ein helpu i wella perfformiad.

Bydd y canlyniadau cymharol a gwybodaeth arall yn cael eu defnyddio i lywio ein gwelliannau ar gyfer cylch 2017/18:-

- Bydd gwasanaethau yn eu defnyddio i werthuso ac asesu perfformiad a llunio cynlluniau busnes 2017/18
- Byddant yn darparu gwybodaeth ar gyfer proses cyllideb 2017/18
- Bydd y canlyniadau hyn hefyd yn dylanwadu ar ddewis ein Hamcanion Llesiant ar gyfer 2017/18 a Chynllun Corfforaethol y dyfodol



EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru

YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

FE DDWEDSOCH CHI, FE WRANDAWSOM NI....

Daliwch ati i anfon eich sylwadau atom....
os na ddwedwch chi... allwn ni wneud dim!